**Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru**
Cymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru
Un Canal Parade
Caerdydd
CF10 5BF
safercommunities@wlga.gov.uk

08 Gorffennaf 2024
fitnote.team@dwp.gov.uk

**Diwygio Nodyn Ffitrwydd: Cais am dystiolaeth**

## Cyflwyniad

Sefydlwyd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ym mis Ionawr 2021 yn dilyn argymhellion Adolygiad Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru. Mae'r Rhwydwaith yn cynnig llais strategol dros ddiogelwch cymunedol yng Nghymru, drwy gydweithio i hyrwyddo a chefnogi partneriaethau diogelwch cymunedol a dylanwadu ar lunio a datblygu polisi cenedlaethol ac arferion lleol.

## Ymateb

O adolygu'r cwestiwn, er nad oeddem yn teimlo y gallem gynnig unrhyw ymateb buddiol i'r cwestiynau a ofynnwyd, rydym yn gobeithio y bydd y sylwadau a'r adborth canlynol o fudd i chi.

Hoffem dynnu sylw at y ffaith nad oes unrhyw sôn am y gweinyddiaethau datganoledig drwy gydol y papur ymgynghori. O ystyried bod Iechyd yn faes cyfrifoldeb datganoledig yng Nghymru, byddem yn gobeithio y byddai unrhyw ystyriaeth bellach i ddiwygio'r Broses Nodiadau Ffitrwydd yn cynnwys trafodaethau uniongyrchol â Llywodraeth Cymru.

Er ein bod yn gwerthfawrogi mai ymarfer cwmpasu yw hwn, rydym yn bryderus am dôn cyffredinol y cais am dystiolaeth a'r ensyniad bod pobl yn cymryd mantais. Er ein bod yn sylweddoli y bydd rhai pobl yn manteisio ar y broses yn anffodus, byddem yn cytuno mai'r gweithwyr iechyd proffesiynol yn wir sydd yn y lle gorau i benderfynu ar hyn, ar sail ymgynghoriadau cyfannol â'r unigolion. Byddai awgrymu eu bod yn cael eu dosbarthu'n amhriodol yn cwestiynu uniondeb y gweithwyr meddygol proffesiynol sy'n dosbarthu'r papur, neu'n cwestiynu tybed a yw'r adnoddau digonol ganddynt i fynd i'r afael â'r galw, ac os felly, dylid mynd ati i gynyddu'r cyllid a'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

Rydym yn bryderus y gallai gosod rhwystrau ychwanegol i gael amser awdurdodedig i ffwrdd o'r gwaith yn golygu y bydd unigolion diamddiffyn ofn ceisio cymorth meddygol ac yn colli ffydd yn eu Meddyg Teulu.  Mae yna berygl y bydd pobl yn dychwelyd i'r gwaith yn rhy gyflym ac yn eu gwneud yn hunain yn fwy sâl neu'n sâl am gyfnod hirach.

O safbwynt diogelwch cymunedol, os yw pobl yn sâl, dylent aros i ffwrdd o'r gwaith i'w hamddiffyn eu hunain ac eraill. Yn dilyn Covid-19, llwyddodd nifer o sefydliadau i sefydlu trefn o weithio gartref, all helpu unigolion i ddychwelyd at eu dyletswyddau mewn amgylchedd diogel. Ond ar gyfer y rheiny sydd angen mynd i'w gweithle, gall gwneud hynny'n rhy fuan arwain at ail bwl o salwch neu at ledaenu haint o bosib.

Er nad ydym yn anghytuno â'r awgrym o gynnig cymorth i ddychwelyd i'r gwaith, nid yw hyn wastad yn rhywbeth y gall pob cyflogwr ei drefnu mewn gwirionedd, yn dibynnu ar natur neu faint y busnes.

Byddem yn cytuno bod gwaith yn dod â nifer o fanteision cymdeithasol a phersonol yn ei sgil, ac nid ydym yn amau y gall fod yn anodd dychwelyd yn dilyn absenoldeb hirdymor. Fodd bynnag, byddem unwaith eto'n troi at y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, sydd yn y lle gorau i ddeall cymhlethdodau unrhyw unigolyn penodol a'u hamgylchiadau personol, gan gydnabod y gallai nifer o ffactorau olygu y byddai dychwelyd i'r gwaith yn amhriodol er lles yr unigolyn hwnnw.

Pe baech chi'n penderfynu yr hoffech chi edrych ymhellach ar ddiwygio Nodiadau Ffitrwydd, byddem yn falch o helpu sicrhau bod gennych chi gysylltiadau priodol a pherthnasol yng Nghymru i helpu llunio unrhyw gynigion yn y dyfodol.

Diolch i chi am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

**Ymateb a gyflwynwyd gan:**

Sylwch fod hwn yn ymateb ar ran ein holl aelodau, sy'n cynnwys 22 Cyngor, 4 Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, 4 Heddlu, 3 Gwasanaeth Tân ac Achub, y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Trydydd Sector, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Enw: Helen Hill
Sefyllfa: Rheolwr Busnes a Datblygu Rhwydwaith Dros Dro
Sefydliad: Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
Cyfeiriad: One Canal Parade, Dumballs Road, Cardiff CF10 5BF
E-bost: safercommunities@wlga.gov.uk or Helen.Hill@wlga.gov.uk